



Briff Ymchwil Araith y Frenhines

Awdur: **Alys Thomas**
Dyddiad: **Mai 2016**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Alys Thomas**

Dyddiad: **Mai 2016**

Rhif Papur: **16-027**

Clawr blaen: **Llun: flickr gan UK Parliament. Dan drwydded Creative Commons.**

Agraffwyd gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA.

Hyrwyddwyd gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA.

Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA**

☎ : 0300 200 6316

✉ : Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru

🌐 : Cynulliad.Cymru/Pigion

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Araith y Frenhines

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb byr o'r Biliau a'r Biliau drafft a nodwyd yn Araith y Frenhines 2016, ynghyd â manylion y Biliau sy'n cael eu cario drosodd o'r sesiwn ddiwethaf, gyda phwyslais arbennig ar y cynigion hynny a fyddai'n effeithio ar Gymru, yn enwedig mewn meysydd datganoledig.



Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Biliau Cyfansoddiadol.....	2
Bil Cymru	2
Bil Hawliau Dynol Brydeinig	2
3. Biliau'r DU.....	3
Bil yr Economi Ddigidol.....	3
Bil Trafnidiaeth Fodern	4
Bil Cynllunio Cymdogaeth a Seilwaith.....	4
Bil Marchnadoedd Gwell.....	5
Bil GIG (Codi Tâl ar Ymwelwyr Tramor)	6
Bil Pensiynau.....	6
Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol	7
Bil Diwygio Carchardai a'r Llysoedd.....	7
Bil Cynilion Bywyd	7
Bil Ardoll y Diwydiant Diodydd Meddal.....	8
Bil Rhoddion Elusennol Bach	8
Bil Gwrth-Eithafiaeth a Diogelu	8
Bil Cyllid Troseddol	8
Bil Eiddo Diwylliannol (Gwrthdaro Arfog)	8
4. Biliau Lloegr yn unig	10
Bil Twf Lleol a Swyddi.....	10
Bil Addysg i Bawb.....	10
Bil Addysg Uwch ac Ymchwil.....	10
Bil Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol	10
Bil Gwasanaethau Bws	10
5. Biliau a gariwyd drosodd	11
Bil Plismona a Throseddu	11
Bil Pwerau Ymchwilio	11
Bil Rheilffyrdd Cyflym (Llundain - Gorllewin Canolbarth Lloegr) (Bil Hybrid).....	11
Bil Cyllid.....	12
6. Biliau Comisiwn y Gyfraith.....	13
Bil Eiddo Deallusol (Bygythiadau Anghyfiawn)	13
Bil Cyfraith Eiddo Drafft	13

1. Cyflwyniad

Cafodd Araith y Frenhines ei chyflwyno i'r Senedd ar 18 Mai 2016. Roedd yn cynnwys manylion am fwriadau Llywodraeth y DU i gyflwyno ystod o Filiau yn ystod Sesiwn Seneddol 2016-17. Mae Llywodraeth y DU wedi llunio **nodiadau cefndirol** ar y Biliau arfaethedig.

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb byr o'r Biliau a'r Biliau drafft a nodwyd yn Araith y Frenhines 2016, ynghyd â manylion y Biliau sy'n cael eu cario drosodd o'r sesiwn ddiwethaf, gyda phwyslais arbennig ar y cynigion hynny a fyddai'n effeithio ar Gymru, yn enwedig mewn meysydd datganoledig.

Ers Araith ddiwethaf y Frenhines, mae Rheolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin wedi cael eu newid i gyflwyno "Pleidleisiau Lloegr ar gyfer Cyfreithiau Lloegr", lle mae'r Llefarydd yn ardystio bod Bil, sy'n ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, yn destun gwaith craffu gan bwyllgor sy'n cynnwys Aelodau Seneddol o Loegr neu Aelodau Seneddol o Gymru a Lloegr fel y bo'n briodol.

2. Biliau Cyfansoddiadol

Bil Cymru

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Model cadw pwerau newydd ar gyfer datganoli yng Nghymru, gan gynnwys rhestr o bwerau sy'n cael eu cadw yn San Steffan.
- Trefniadau pontio ar gyfer symud oddi wrth y model rhoi pwerau presennol i'r model cadw pwerau newydd.
- Datganoli pwerau i Weinidogion Cymru ar gyfer rhoi cydsyniad i bob prosiect gwynt ar y tir yng Nghymru ac i roi cydsyniad hyd at 350 megawatt ar gyfer pob prosiect ynni arall ar y tir ac ar y môr.
- Datganoli pwerau i'r Cynulliad ar gyfer meysydd fel porthladdoedd, rheoleiddio tacsis, cofrestru gwasanaethau bysiau, cyfyngiadau cyflymder a gwasanaethau carthffosiaeth yng Nghymru.
- Datganoli rhoi trwyddedau ar gyfer archwilio olew a nwy ar y tir yng Nghymru, gan alluogi'r Cynulliad i benderfynu a gaiff archwilio am olew a nwy siâl ddigwydd yng Nghymru.
- Darpariaethau i osod y Cynulliad a Llywodraeth Cymru ar sail statudol (sic) ac i ymgorffori'r broses cydsyniad deddfwriaethol mewn cyfraith.
- Datganoli rheolaeth dros faterion y Cynulliad ei hun, gan gynnwys enw'r sefydliad, ei faint a'r system etholiadol a ddefnyddir i ethol ei Aelodau.
- Diddymu'r gofyniad i gynnal refferendwm cyn datganoli cyfran o'r dreth incwm.

Oherwydd mai nod y Bil yw newid pwerau'r Cynulliad, disgwylir y bydd Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad.

Bil Hawliau Dynol Brydeinig

Mae nodiadau Llywodraeth y DU, sy'n cyd-fynd ag Araith y Frenhines, yn nodi y byddai'r hawliau yn y Bil yn seiliedig ar y rhai a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn ogystal ag ystyried ein traddodiad cyfraith gyffredin. Maent hefyd yn datgan y bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori'n llawn ar y cynigion pan gânt eu cyhoeddi maes o law.

Dim ond Senedd y DU sy'n cael diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol. Fodd bynnag, gallai'r newidiadau effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

3. Biliau'r DU

Bil yr Economi Ddigidol

Dyma brif elfennau'r Bil:

Band eang cyflym

- Pŵer i gyflwyno **Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer Band Eang** - gan roi'r hawl gyfreithiol i bob dinesydd a busnes gael cyswllt band eang cyflym wedi'i osod. Byddai hyn yn gweithio yn yr un modd â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer ffôn llinell tir ac, yn union fel ar gyfer llinellau tir, byddai trothwy cost resymol yn bodoli a gellir disgwyl i'r eiddo mwyaf anghysbell gyfrannu at gost y gosodiad pe byddai'n uwch na'r trothwy hwnnw.
- **Cod Cyfathrebu Electronig** newydd - i leihau'r gost a symleiddio adeiladu seilwaith band eang symudol a cyflym iawn.
- Rheolau cynllunio newydd a symlach ar gyfer adeiladu seilwaith band eang.

Grymuso defnyddwyr

- Pŵer newydd i Ofcom orchymyn i ddarparwyr cyfathrebu ryddhau data (fel cwynion cwsmeriaid a data am gyflymder band eang) er budd defnyddwyr a chystadleuaeth.
- Mesurau newydd i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr newid eu darparwr drwy ganiatáu i Ofcom ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau cyfathrebu drefnu newid darparwr ar ran cwsmeriaid.
- Hawl newydd i ddefnyddwyr i gael iawndal awtomatig pan fydd pethau'n mynd o'i le â'u gwasanaeth band eang.

Diogelu eiddo deallusol

- Cefnogaeth ar gyfer diwydiannau digidol drwy fynd i'r afael â gwahaniaethau rhwng cyfreithiau hawlfraint ar-lein / all-lein.
- Galluogi perchnogion cynlluniau sydd wedi'u cofrestru i roi hysbysiad o'u hawliau mewn ffordd sy'n rhatach ac yn fwy hyblyg.

Data a gwasanaethau digidol y Llywodraeth

- Defnydd y Llywodraeth o ddata i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus a chynhyrchu ymchwil ac ystadegau o'r radd flaenaf.
- Ymgynghori ar rannu setiau data a ddelir yn gyhoeddus mewn gwell ffordd er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth yn ogystal â chynnal mesurau diogelu preifatrwydd.
- Pwerau newydd i awdurdodau cyhoeddus i rannu gwybodaeth er mwyn brwydro yn erbyn twyll yn y sector cyhoeddus, sy'n costio biliynau i'r wlad.
- Grymuso awdurdodau cyhoeddus i leihau'r biliynau o ddyledion hwyr sy'n ddyledus i'r Llywodraeth drwy ganiatáu canfod pobl sydd â dyledion mewn nifer o asiantaethau cyhoeddus yn gynnar a rhoi cymorth iddynt.
- Rhoi mynediad diogel haws at ddata i Awdurdod Ystadegau'r DU er mwyn cynhyrchu ystadegau cenedlaethol a swyddogol mwy amserol a chywir.

- Rhoi sylfaen dystiolaeth fwy cyflawn a chywir i ymchwilyr i lywio gwaith dadansoddi a galluogi cynllunio polisiau a'u darpariaeth yn well.

Diogelu dinasyddion yn yr economi ddigidol

- Diogelu defnyddwyr rhag e-byst sbam a galwadau niwsans drwy sicrhau bod cydsyniad yn cael ei sicrhau ar gyfer marchnata uniongyrchol, a grymuso'r Comisiynydd Gwybodaeth i osod dirwyon ar y rhai sy'n torri'r rheolau.
- Amddiffyn plant rhag pornograffi ar-lein trwy fynnu bod rhaid dilysu oedran i gael mynediad at bob safle sy'n cynnwys deunydd pornograffig.

Mae cyfathrebu, darlledu ac eiddo deallusol yn faterion sydd heb eu datganoli.

Bil Trafnidiaeth Fodern

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Annog buddsoddwyr posibl mewn cerbydau awtonomaidd, gweithrediadau awyrennau gofod a phorthladdoedd gofod. Byddai hynny'n creu swyddi â sgiliau uchel ac yn sbardun i arloesedd ar draws yr economi.
- Deddfwriaeth a fyddai'n rhoi'r DU ar flaen y gad o ran technoleg ddiogel yn y diwydiant cerbydau awtonomaidd, fel dronïau ac awyrennau gofod.
- Sicrhau bod yswiriant priodol ar gael i gefnogi'r defnydd o gerbydau awtonomaidd a cherbydau heb yrrwr.
- Gwella diogelwch i gwsmeriaid drwy ddiweddarau ATOL, cynllun diogelu ariannol y DU ar gyfer gwyliau, drwy wneud deddfwriaeth 1992 yn gliriach, a wnaed yn y dyddiau cyn bod pobl yn trefnu eu gwyliau ar y rhyngwyd.

Bydd rhai o ddarpariaethau'r Bil yn berthnasol i Brydain Fawr yn unig, ac eraill i'r Deyrnas Unedig.

Nid yw awyrennau a materion morwrol wedi cael eu datganoli ar y cyfan, felly mae hyn yn berthnasol i'r DU gyfan. Fodd bynnag, byddai mesurau ynghylch cerbydau awtonomaidd a cherbydau heb yrrwr yn berthnasol i Brydain Fawr yn unig.

Bil Cynllunio Cymdogaeth a Seilwaith

Dyma brif elfennau'r Bil:

Cynllunio Cymdogaeth

- Cryfhau cynllunio cymdogaeth ymhellach a rhoi hyd yn oed mwy o bŵer i bobl leol.
- Byddai'r deddfwriaeth newydd hefyd yn cryfhau cynllunio cymdogaeth drwy wneud y ddyletswydd ar lywodraeth leol i gefnogi grwpiau yn fwy tryloyw a thrwy wella'r broses ar gyfer adolygu a diweddarau cynlluniau.

Amodau Cynllunio

- Sicrhau bod amodau cynllunio cyn cychwyn yn cael eu gosod gan awdurdodau cynllunio lleol pan fyddant yn gwbl angenrheidiol yn unig.
- Gall amodau cynllunio cyn cychwyn gormodol arafu neu atal adeiladu cartrefi ar ôl iddynt gael caniatâd cynllunio.

- Byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn mynd i'r afael â'r gordefnydd ac, mewn rhai achosion, y camddefnydd o amodau cynllunio penodol, a thrwy hynny sicrhau bod datblygiadau, gan gynnwys tai newydd, yn gallu mynd rhagddynt heb oedi diangen.

Prynu gorfodol

- Gwneud y broses gorchymyn prynu gorfodol yn gliriach, yn decach ac yn gynt i bawb sydd ynghlwm wrthi.
- Diwygio'r cyd-destun ar gyfer trafod iawndal - sy'n aml yn rhan sylweddol a chymhleth iawn o ddod i gytundeb terfynol ar gyfer prynu gorfodol. Byddai ein cynigion, yr ydym eisoes wedi ymgynghori yn eu cylch, yn atgyfnerthu a rhoi eglurhad ynghylch 100 mlynedd o gyfraith statud a chyfraith achosion sy'n gwrthdaro. Byddem yn sefydlu fframwaith statudol clir a newydd ar gyfer cytuno ar iawndal, yn seiliedig ar yr egwyddor sylfaenol y dylai iawndal fod yn seiliedig ar werth marchnad y tir yn absenoldeb y cynllun sy'n sail i'r prynu gorfodol.

Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol

- Sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol annibynnol sy'n statudol.
- Byddai'r Comisiwn yn rhoi i'r Llywodraeth gyngor arbenigol ac annibynnol ar faterion seilwaith drwy bennu gweledigaeth glir a strategol ar y seilwaith sydd ei angen yn y dyfodol i sicrhau bod economi'r DU yn addas ar gyfer 2050.
- Datgloi potensial economaidd ar draws y DU a sicrhau bod twf a chyfleoedd ar gael ledled y wlad. Hybu cynhyrchiant a chystadleurwydd drwy seilwaith o ansawdd uchel.

Y Gofrestrfa Tir

- Byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn galluogi preifateiddio'r Gofrestrfa Tir.
- Gallai hefyd ddychwelyd derbyniad cyfalaf i'r Trysorlys.

Byddai prif ddarpariaethau'r Bil yn berthnasol ledled Cymru a Lloegr. Byddai'r mesur sy'n ymwneud â'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn berthnasol ledled y DU yn unol â chyfrifoldebau presennol ynghylch gwneud penderfyniadau. Pan gaiff y Bil ei gyhoeddi, mae'n bosibl y bydd angen Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau penodol.

Bil Marchnadoedd Gwell

Dyma brif elfennau'r Bil:

Pŵer i ddefnyddwyr

- Annog defnyddwyr i newid darparwyr.

Creu amgylchedd ar gyfer cystadleuaeth

- Cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch ymchwiliadau i gystadleuaeth.
- Rhoi mwy o bwerau i'r awdurdodau cystadleuaeth ymdrin ag ymddygiad sy'n mynd yn groes i gystadleuaeth.
- Gwella'r sefyllfa o ran rheoleiddio economaidd.

Marchnadoedd agored

- Cymryd camau i sicrhau marchnadoedd agored a chystadleuol, gan gynnwys cyflwyno'r ymrwymiad maniffesto i weithredu'n gyflym ar argymhellion terfynol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i hyrwyddo cystadleuaeth yn y farchnad ynni.
- Helpu busnesau drwy symleiddio prosesau rheoleiddio a dileu gofynion diangen.

Byddai prif ddarpariaethau'r Bil yn berthnasol i bob rheoliad a wneir gan Weinidogion y DU pan fydd gan San Steffan gymhwysedd deddfwriaethol, ac i bob swyddogaeth reoleiddio ac eithrio lle mae'r swyddogaethau wedi'u datganoli.

Bil GIG (Codi Tâl ar Ymwelwyr Tramor)

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Mesurau a fyddai'n sicrhau adfer costau yn effeithiol ac yn effeithlon a bod cost lawn y gofal yn cael ei adfer.
- Mesurau a fyddai'n ehangu nifer y gwasanaethau y gall y GIG godi tâl ar ymwelwyr a mudwyr o dramor amdanynt.
- Mesurau a fyddai'n golygu bod llai o bobl sy'n dod i'r DU o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn gymwys i gael gofal iechyd am ddim gan y GIG.

Mae iechyd yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Mae nodiadau Llywodraeth y DU i Araith y Frenhines yn nodi:

Some measures may require legislative consent motions. The Government is working closely with officials in the devolved administrations. However, due to the pre-election period in the devolved administrations, Ministerial agreement on the extent of the legislation will not be in place until late May at the earliest.

Bil Pensiynau

Dyma brif elfennau'r Bil:

Prif Ymddiriedolaethau (Master Trusts)

- Byddai'n rhaid i Brif Ymddiriedolaethau ddangos bod cynlluniau yn bodloni meini prawf llym newydd cyn dod yn rhan o'r farchnad a chymryd arian gan gyflogwyr neu aelodau.
- Creu mwy o bwerau i'r Rheoleiddiwr Pensiynau awdurdodi a goruchwyllo'r cynlluniau hyn a gweithredu pan fo angen.
- Cap ar daliadau ymadael yn gynnar.
- Capi ffioedd ymadael yn gynnar sy'n cael eu codi gan gynlluniau pensiwn galwedigaethol sy'n seiliedig ar ymddiriedolaethau.
- Creu system sy'n galluogi defnyddwyr i gael mynediad at ryddiadau pensiwn heb rwystrau afresymol.

Ailstrwythuro canllawiau ariannol

- Creu corff canllawiau pensiynau newydd gan ddwyn ynghyd y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau, Pension Wise a'r gwasanaethau pensiwn a gynigir gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, er mwyn rhoi mynediad i gwsmeriaid at wasanaeth sy'n rhoi canllawiau syml ar gyfer pensiynau preifat.

- Byddai corff canllawiau ariannol newydd yn disodli'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol ac fe fyddai'n gyfrifol am nodi'r bylchau yn y farchnad canllawiau ariannol i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad at ganllawiau o ansawdd uchel ar gyfer dyledion ac arian.

Nid yw pensiynau wedi'u datganoli i Gymru. Bydd y cyrff rhoi canllawiau newydd yn gweithredu ledled y DU, ac mae gwasanaethau ariannol yn fater sydd wedi'i gadw. Fodd bynnag, fe allai materion godi o fewn gweinyddiaethau datganoledig o ganlyniad i gysylltiadau ag addysg ariannol, sydd wedi cael ei ddatganoli.

Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol

Bydd y rhan fwyaf o'r Bil yn ymwneud â materion datganoledig ac yn berthnasol i Loegr yn unig.

Bydd y darpariaethau sy'n ymwneud â **phenderfyniadau mabwysiadu** yn gymwys i Gymru a Lloegr.

Nid yw penderfyniadau'r llys yn fater sydd wedi cael ei ddatganoli. Mae penderfyniadau asiantaethau mabwysiadu yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei bod wedi cysylltu â gweinyddiaeth Cymru ynghylch y cymalau hyn.

Prif elfen y Bil a fydd yn berthnasol i Gymru yw sicrhau bod llysoedd yn gwella eu hystyriaeth bod plant angen sefydlogrwydd hyd at 18 oed wrth wneud penderfyniadau am eu dyfodol.

Bil Diwygio Carchardai a'r Llysoedd

Dyma brif elfennau'r Bil:

Carchardai

- Creu 'Reform Prisons', a fydd yn gyrru chwyldro o ran addysg, hyfforddiant, gofal iechyd a diogelwch carcharorion, o dan arweiniad y llywodraethwyr, gyda'r pŵer i ymrwymo i gontractau a sefydlu eu Byrddau eu hunain gydag arbenigedd allanol.
- Bydd y rhyddiadau newydd yn cael eu cefnogi gan drefn agored newydd ar gyfer yr holl ystadau carchar anhryloyw blaenorol, a bydd yn ofynnol i garchardai gynhyrchu ystadegau ynghylch addysg carcharorion, aildroseddu a chyflogaeth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau.

Llysoedd

Mesurau i fodloni ymrwymiad maniffesto Llywodraeth y DU i foderneiddio'r gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd.

Byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

Bil Cynilion Bywyd

Dyma brif elfennau'r Bil:

- O dan y cynllun Cymorth i Gynilo (Help to Save), byddai gweithwyr sy'n cael credyd treth gwaith neu gredyd cynhwysol ac sy'n cynilo hyd at £50 y mis yn cael bonws 50 y cant gan y Llywodraeth - hyd at uchafswm o £600 - ar ôl dwy flynedd. Gallai cynilwyr sy'n parhau i ddefnyddio'r cynllun am ddwy flynedd arall ennill hyd at £600 arall.
- Ar gyfer oedolion o dan 40 oed, bydd y Llywodraeth yn ychwanegu bonws o 25 y cant ar gyfraniadau i ISA Gydol Oes ar gyfer cynilion hyd at £4,000 y flwyddyn: taliad di-dreth o hyd at £1,000 y flwyddyn.
- Gall deiliaid cyfrif ISA Gydol Oes ddefnyddio eu cynilion, neu ran o'u cynilion, i brynu eu cartref cyntaf (gwerth hyd at £450,000), neu o 60 oed, yn ddi-dâl.

Byddai'r Bil yn berthnasol i'r DU gyfan.

Bil Ardoll y Diwydiant Diodydd Meddal

Diben y Bil yw cyflwyno ardoll newydd ar y diwydiant diodydd meddal ym Mil Cyllid 2017, wedi'i thargedu at gynhyrchwyr a mewnforyr diodydd meddal sy'n cynnwys siwgr ychwanegol, o fis Ebrill 2018. Byddai'r Bil yn berthnasol i'r DU gyfan.

Bil Rhoddion Elusennol Bach

Diben y Bil yw galluogi elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol i wneud y mwyaf o'u pŵer i godi arian drwy ddiwygio'r Cynllun Cymorth Rhodd ar Roddion Bach i sicrhau ei fod yn cynorthwyo'r nifer fwyaf bosibl o elusennau a rhoddion. Byddai'n berthnasol i'r DU gyfan.

Bil Gwrth-Eithafiaeth a Diogelu

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Cyflwyno trefn gorchymyn sifil newydd i gyfyngu ar weithgarwch eithafol, yn dilyn ymgynghoriad.
- Diogelu plant rhag oedolion eithafol drwy roi pwerau i ymyrryd mewn lleoliadau addysg dwys sydd heb eu rheoleiddio a phwerau cryfach ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Cau'r bylchau fel y gall Ofcom barhau i ddiogelu defnyddwyr sy'n gwyllo rhaglenni teledu o du allan i'r UE ar Freeview drwy ffrwd ar y rhyngrwyd.
- Ymgynghori ar bwerau i alluogi'r Llywodraeth i ymyrryd pan fydd cynghorau yn methu mynd i'r afael ag eithafiaeth.
- Bydd Llywodraeth y DU yn ystyried yr angen am fesurau deddfwriaethol pellach yn dilyn adolygiad Louise Casey ar integreiddio yn y cymunedau hynny sydd fwyaf ar wahân i'r brif ffrwd.

Byddai'r ddeddfwriaeth yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r sefyllfa yn yr Alban eto i'w phenderfynu.

Bil Cyllid Troseddol

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Cyflwyno trosedd ar gyfer corfforaethau sy'n methu atal eu staff rhag hwyluso osgoi talu treth.
- Gwella gweithrediad y drefn Adroddiadau Gweithgarwch Amheus (SARs) i annog gwell defnydd o adnoddau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn erbyn y bygythiadau uchaf; targedu endidau sy'n gwyngalchu arian yn hytrach na gwneud trafodion unigol; a rhoi pwerau newydd i'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol.
- Gwella gallu asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'r llysoedd i adennill asedau troseddol yn fwy effeithiol, yn enwedig mewn achosion sy'n gysylltiedig â llygredd ar raddfa fawr.

Mae gwyngalchu arian yn fater i'r DU gyfan. Lle mae'r Bil yn ymdrin â materion datganoledig, bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig yn ôl yr angen.

Bil Eiddo Diwylliannol (Gwrthdaro Arfog)

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Byddai'r Bil yn cyflwyno nifer o fesurau a fyddai'n galluogi'r DU i gadarnhau'r Confensiwn a'i ddau Brotocol.

- Cyflwyno troseddau a gynlluniwyd i amddiffyn eiddo diwylliannol mewn achos o wrthdaro arfog gartref neu dramor. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud ymosodiad ar eiddo o'r fath yn drosedd.
- Cyflwyno Tarian Las (Blue Shield) fel arwyddlun sy'n dangos bod rhywbeth yn eiddo diwylliannol a ddiogelir o dan y Confensiwn a'i ddau BroTOCOL.
- Cyflwyno trosedd ar gyfer delio mewn eiddo diwylliannol sydd wedi cael ei allforio yn anghyfreithlon o diriogaeth a feddiennir a darpariaeth ar gyfer cipio eiddo o'r fath a'i ddychwelyd i'r diriogaeth a feddiennir ar ôl diwedd yr elyniaeth, lle bo'n briodol.
- Cyflwyno imiwnedd rhag ymafael ar gyfer eiddo diwylliannol yn y DU sy'n cael ei gludo i'w gadw'n ddiogel yn ystod gwrthdaro rhwng dau neu fwy o wladwriaethau eraill.

Byddai'r Bil yn berthnasol i'r DU gyfan. Mae darpariaethau'r Bil yn bennaf yn ymwneud â diwylliant sydd wedi cael ei ddatganoli o dan yr holl setliadau datganoli; byddai angen Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol gan bob deddfwrfa ddatganoledig. Mae Rhan 4, sy'n ymwneud â rheoliadau allforio, wedi'i ddatganoli.

4. Biliau Lloegr yn unig

Bil Twf Lleol a Swyddi

Dyma brif elfennau'r Bil:

- System Cadw Trethi Busnes.
- Byddai'r Bil yn rhoi fframwaith cyflwyno'r cynllun ar waith, ac yn deddfu ar gyfer y set o gyfrifoldebau a fyddai'n cael eu datganoli i awdurdodau lleol o ganlyniad i'r diwygiadau.

Bil Addysg i Bawb

Mae addysg yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Byddai'r mwyafrif llethol o'r prif faterion yn y Bil yn berthnasol i Loegr yn unig. Mae Llywodraeth y DU yn datgan ei bod mewn trafodaethau gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch unrhyw faterion sydd wedi'u cadw.

Bil Addysg Uwch ac Ymchwil

Byddai prif ddarpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer addysg uwch yn bennaf berthnasol i Loegr yn unig. Y prif eithriad i'r statws 'Lloegr yn unig' yw'r cyllid ymchwil gan y Cynghorau Ymchwil sy'n gweithredu ar draws y DU. **Mae'r Bil hwn bellach wedi cael ei gyflwyno.**

Bil Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Creu fframwaith statudol newydd ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol.
- Rhoi dyletswydd ar bob ysgol uwchradd, gan gynnwys academiâu, colegau chweched dosbarth ac ysgolion annibynnol, i hyrwyddo'r Gwasanaeth i bobl ifanc a'u rhieni.
- Rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo'r Gwasanaeth i bobl ifanc a'u rhieni.
- Rhoi dyletswydd ar Ysgrifenyddion Gwladol perthnasol i adrodd yn flynyddol ar sut y maent wedi hyrwyddo'r Gwasanaeth i bobl ifanc cymwys a rhieni.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei bod mewn trafodaethau gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch ymestyn y Bil i'w awdurdodaethau drwy ddefnyddio cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

Bil Gwasanaethau Bws

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Trefniadau cadarnach i alluogi llywodraeth leol i weithio mewn partneriaeth â gweithredwyr bysiau.
- Pwerau masnachfaint newydd.
- Gofyniad ar weithredwyr i sicrhau bod data ynghylch llwybrau, prisiau ac amseroedd yn agored a hygyrch er mwyn caniatáu i wneuthurwyr aps ddatblygu cynnyrch cynllunio teithiau i deithwyr.
- Er y bwriedir iddo fod yn gymwys i Loegr yn unig, efallai y bydd goblygiadau ar wasanaethau trawsffiniol.

5. Biliau a gariwyd drosodd

Mae Tŷ'r Cyffredin wedi cytuno i gario'r Biliau canlynol drosodd i sesiwn 2016-17.

Bil Plismona a Throseddu

Diben y Bil hwn yw:

- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd heddluoedd, gan gynnwys cydweithio agosach â gwasanaethau brys eraill i wella atebolrwydd democrataidd heddluoedd a gwasanaethau tân ac achub.
- Magu hyder y cyhoedd mewn plismona drwy wella'r diogelwch ar gyfer pobl sy'n cael eu hymchwilio gan yr heddlu, neu sy'n dod i gysylltiad â hwy.
- Galluogi gwasanaethau tân a'r heddlu i weithio'n agosach â'i gilydd ac i gymryd camau pellach i amddiffyn plant rhag cam-fanteisio rhywiol.

Cafodd y Bil ei Ddarlleniad Cyntaf a'i Ail Ddarlleniad ffurfiol yn Nhŷ'r Cyffredin (dim dadl) ddydd Iau 19 Mai i'w ailgyflwyno ar gyfer sesiwn Seneddol 2016-17. Bydd y Cyfnod Adrodd (yr ail ddydd), yr Uwch Bwyllgor Deddfwriaethol a Chyfnod y Trydydd Darlleniad yn digwydd ar ddyddiadau sydd eto i'w cyhoeddi.

Bil Pwerau Ymchwilio

Diben y Bil hwn yw:

- Moderneiddio'r gyfraith a sicrhau ei bod yn addas at y diben mewn oes ddigidol, a chyflwyno gwell trefniadau awdurdodi a goruchwyllo.
- Sicrhau fod yr heddlu ac asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn meddu ar y pwerau sydd eu hangen arnynt i barhau i amddiffyn y cyhoedd ym Mhrydain.

Cafodd y Bil ei Ddarlleniad Cyntaf a'i Ail Ddarlleniad ffurfiol yn Nhŷ'r Cyffredin (dim dadl) ddydd Iau 19 Mai i'w ailgyflwyno ar gyfer sesiwn Seneddol 2016-17. Caiff y Bil ei drafod nesaf yn y Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad. Nid yw'r dyddiadau ar gyfer y Cyfnodau sy'n weddill wedi cael eu cyhoeddi eto.

Bil Rheilffyrdd Cyflym (Llundain - Gorllewin Canolbarth Lloegr) (Bil Hybrid)

Diben y Bil hwn yw rhoi i Lywodraeth y DU y pwerau cyfreithiol i adeiladu Cyfnod 1 Cyflymder Uchel 2 (HS2) a'i weithredu. Pe bai'n dod yn Ddeddf, byddai'n rhoi i'r Llywodraeth ganiatâd cynllunio tybiedig ar gyfer y rheilffordd rhwng Llundain a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Cynhaliwyd y Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Mawrth 2016.

Cytunodd Tŷ'r Cyffredin ar gynnig cario drosodd ar gyfer y Bil hwn ar 23 Mawrth 2016. Golyga hyn y bydd y Senedd yn ailddechrau trafod y Bil yn sesiwn 2016-17 gan ddechrau o'r man y cyrhaeddwyd yn y Bil yn y sesiwn ddiwethaf.

Bil Cyllid

Cytunodd Tŷ'r Cyffredin ar gynnig cario drosodd ar gyfer y Bil hwn ar 11 Ebrill 2016. Golyga hyn y bydd trafodaethau'n aildddechrau ar y Bil yn sesiwn 2016-17.

Cafodd y Bil ei Ddarlleniad Cyntaf a'i Ail Ddarlleniad ffurfiol yn Nhŷ'r Cyffredin (dim dadl) ddydd Iau 19 Mai i'w ailgyflwyno yn sesiwn Seneddol 2016-17. Bydd y trafod yn aildddechrau o'r man y cyrhaeddwyd yn y Bil yn y sesiwn ddiwethaf.

Bydd y Bil yn cael ei drafod nesaf yn y Cyfnod Pwyllgor. Bydd rhannau o'r Bil yn cael eu trafod gan Bwyllgor o'r Tŷ cyfan, a'r gweddill mewn Pwyllgor Bil Cyhoeddus.

6. Biliau Comisiwn y Gyfraith

Bil Eiddo Deallusol (Bygythiadau Anghyfiawn)

Dyma brif elfennau'r Bil:

- Gwahaniaethu'n gliriach rhwng y dulliau ar gyfer gwahanol rannau o'r gadwyn gyflenwi, gan orfodi deiliad hawliau i ganolbwyntio eu honiadau ar ffynhonnell y drosedd honedig.
- Eithrio cynghorwyr cyfreithiol proffesiynol rhag atebolrwydd ar gyfer gwneud bygythiadau, os ydynt yn gweithredu ar gyfarwyddiadau gan gleient ac yn rhinwedd eu swydd broffesiynol, fel y gallant helpu i ddatrys anghydfodau.

Mae eiddo deallusol yn fater sydd wedi'i gadw; bydd darpariaethau'r Bil yn berthnasol i'r DU gyfan.

Bil Cyfraith Eiddo Drafft

Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno cynigion i ymateb i argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith, 'Making Land Work: Easements, Covenants and Profits à Prendre' (2011), i symleiddio'r gyfraith ynghylch perchnogaeth tir.